Ffordd o fyw ac iechyd

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn gwasanaethu cymysgedd o ardaloedd cyfoethog a difreintiedig. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ystod eang o batrymau ffordd o fyw a'r canlyniadau iechyd ar lefel awdurdod lleol.

Fodd bynnag, ym mhob awdurdod lleol yn yr ardal, mae mwy na hanner y boblogaeth dros eu pwysau neu'n ordew. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cyfraddau isel o weithgaredd corfforol, a dim ond traean o'r bobl yn ardal y bwrdd iechyd sy'n dilyn y canllawiau o ran bwyta ffrwythau a llysiau.

Mae'r cyfraddau ysmygu a'r cyfraddau ar gyfer y rhai sy'n yfed mwy na'r hyn a argymhellir, yn debyg yn ardal y bwrdd iechyd i gyfartaledd Cymru. Eto i gyd caiff mwy na 1,000 o farwolaethau y flwyddyn eu hachosi gan ysmygu a cheir 10,000 o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd alcohol. Er eu bod yn fwy na 400 y flwyddyn, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau yn isel yn gyffredinol, ac eithrio ymhlith dynion sy'n byw ym Mlaenau Gwent.

Mae cyfraddau beichiogi ymysg merched yn eu harddegau yn uchel yng Nghaerffili a Thor-faen, gyda chyfanswm o 100 o ferched dan 16 oed yn beichiogi. Mae iechyd deintyddol hefyd yn bryder, yn arbennig ym Mlaenau Gwent a Thorfaen.

O gymharu â Chymru

- Yn ystadegol arwyddocaol waeth
- Heb fod yn ystadegol arwyddocaol wahanol
- Yn ystadegol arwyddocaol well

	CYMRU	Caerffili	Blaenau Gwent	Tor-faen	Sir Fynwy	Casnewydd	Aneurin Bevan	Nifer blynyddoedd yn y bwrdd iechyd
Oedolion sy'n bwyta ffrwythau a llysiau (5-y-dydd) (%) [a, 1]	36	34	27	35	40	33	34	-
Oedolion sy'n dilyn canllawiau gweithgaredd corfforol (%) [a, 1]	30	28	27	27	29	28	28	-
Oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew (%) [a, 1]	57	62	64	60	54	60	60	-
Oedolion sy'n ysmygu (%) [a, 1]	24	26	29	28	19	25	25	-
Cyfraddau Marwolaethau yn sgîl ysmygu (dynion) [a, b, 2, 3]	340	379	413	359	272	334	350	640
Cyfraddau Marwolaethau yn sgîl ysmygu (menywod) [a, b, 2, 3]	155	175	212	135	118	160	159	400
Ysmygwyr sy'n cysylltu â Dim Smygu Cymru (%) [a, c]	2.6	2.0	2.8	2.1	2.4	2.5	2.3	2660
Oedolion sy'n yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir (%) [a, 1]	45	45	47	46	46	45	45	-
Cyfraddau sy'n mynd i'r ysbyty oherwydd alcohol (dynion) [d, 2, 3]	1940	2095	2654	1947	1539	2037	2033	6330
Cyfraddau sy'n mynd i'r ysbyty oherwydd alcohol (menywod) [d, 2, 3]	1073	1160	1530	1161	950	1107	1157	4110
Cyfraddau marwolaethau yn sgîl alcohol (dynion) [b, 2, 3]	43	42	46	36	28	37	38	120
Cyfraddau marwolaethau yn sgîl alcohol (menywod) [b, 2, 3]	17	17	22	14	11	15	16	60
Cyfraddau y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau (dynion) [d, 3, 4]	171	121	261	106	125	181	152	250
Cyfraddau y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau (menywod)	112	89	106	91	82	128	100	170
Cyfraddau beichiogrwydd merched yn eu harddegau fesul 1,000 (dan 16 oed) [b]	8.1	8.9	9.9	10.6	6.8	8.3	8.8	100
Nifer y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'i llenwi (plant 5 oed)[e]	2.4	2.7	4.0	3.4	1.9	2.2	2.7	-

I gael rhagor o fanylion, gweler y Canllaw Dangosyddion yn www.iechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk.
Dangosir y blynyddoedd diweddaraf sydd ar gael mewn cromfachau; mae rhai dangosyddion yn cyfuno mwy nag un flwyddyn
a Arolwg Iechyd Cymru (2008); **b** SYG (2007); **c** Dim Smygu Cymru; **d** PEDW (2008); **e** Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru (2005/06)
1 Yn ôl oed safonedig; **2** Marwolaethau/derbyniadau y gellir eu priodoli; **3** Cyfradd oedran safonedig fesul 100,000;
4 Unigolion gyda diagnosis sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon

Crewyd proffiliau ar gyfer pob un o'r saith Bwrdd Iechyd, ynghyd â phroffil hwy ar gyfer Cymru – gweler y wefan **www.iechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk**

Association of Public Health Observatories

GIG Cymru NHS Wales
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales Observatory

© 2010 Iechyd Cyhoeddus Cymru